

# Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Deisebau

---

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Fideogynhadledd drwy Zoom

<http://senedd.tv/cy/12452>

Dyddiad: Dydd Llun, 4 Hydref 2021

Amser: 14.02 – 15.22

## Ar y safle

---

### Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau o'r Senedd:	Jack Sargeant AS (Cadeirydd) Luke Fletcher AS Joel James AS Buffy Williams AS
Tystion:	
Staff y Pwyllgor:	Graeme Francis (Clerc) Kayleigh Imperato (Dirprwy Clerc) Samiwel Davies (Cyngorydd Cyfreithiol)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Ni chafwyd ymddiheuriadau.



## **2 Deisebau newydd**

### **2.1 P-06-1173 Amddiffyniad Cyfreithiol i Ardaloedd Tirwedd Arbennig dynodedig yng Nghymru**

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu'n ôl at y Gweinidog i dynnu sylw at ei bryderon ynghylch dylanwad presennol Ardaloedd Tirwedd Arbennig, gan gytuno i ofyn a oes unrhyw ffordd o gryfhau'r rhain.

### **2.2 P-06-1179 Peintiwch y trenau ar reilffordd canolbarth Cymru fel eu bod yn debyg i lindys**

Yng ngoleuni'r ymateb a gafwyd gan y Gweinidog, cytunodd y Pwyllgor na ellid cymryd unrhyw gamau pellach, diolchodd i'r deisebydd a chau'r ddeiseb.

### **2.3 P-06-1183 Gosod terfyn cyflymder 20 milltir yr awr ar gyfer 100 metr bob ochr i'r groesfan newydd i gerddwyr yng Nglan Conwy**

Cytunodd yr Aelodau y byddai Cadeirydd y Pwyllgor yn mynd ar ymweliad â Glan Conwy i gwrdd â'r deisebydd ac ystyried y sefyllfa bresennol yn y lleoliad a grybwyllir yn y ddeiseb. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ddychwelyd at y mater hwn ar ôl i'r Cadeirydd ddychwelyd o'i ymweliad, er mwyn asesu'r ffordd orau o fwrw ymlaen â'r mater.

### **2.4 P-06-1188 Dechrau Cynllun Erasmus yng Nghymru i ganiatáu i fyfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru fynd i wledydd yr Undeb Ewropeaidd**

Nododd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei rhaglen "Cyfnewid Dysgu Rhyngwladol" ym mis Mawrth 2021. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod y ddeiseb hon wedi bod yn llwyddiannus, gan longyfarch y deisebydd a chau'r ddeiseb.

### **2.5 P-06-1189 Darparu grantiau ffioedd dysgu i gefnogi myfyrwyr meddygaeth sy'n astudio meddygaeth fel ail radd**

Roedd y Pwyllgor yn cydymdeimlo â'r deisebydd ynghylch y mater hwn. Fodd bynnag, yng ngoleuni ymateb y Llywodraeth a oedd yn nodi nad yw'n bwriadu ar hyn o bryd gymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r mater hwn, daeth y Pwyllgor i'r

casgliad nad oedd unrhyw gamau pellach y gallai eu cymryd, a chytunodd i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd.

## **2.6 P-06-1190 Gwahardd y defnydd o fawn mewn garddwriaeth ac unrhyw ddeunydd tyfu erbyn 2023**

Nododd y Pwyllgor fod y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd yn gweithio ar ymgynghoriad ynghylch y mater hwn ac anogodd y deisebydd a'r cefnogwyr i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad pan gaiff ei gynnal. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i gadw golwg ar y mater a dod yn ôl ato pan fydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben.

## **2.7 P-06-1192 Dylid sicrhau bod graddau asesu canolfannau yn cyfrannu at y graddau TGAU a Safon Uwch terfynol**

Nododd y Pwyllgor yr anawsterau y mae cyrff cymwysterau yn eu hwynebu wrth lunio eu cynlluniau asesu yn ystod pandemig – a'r effaith enfawr y mae hyn yn ei chael ar fyfyrwyr ac athrawon mewn cyfnod pan maent eisoes dan lawer o bwysau. Fodd bynnag, cytunodd y Pwyllgor, gan fod addysg a dysgu mewn ysgolion yn dychwelyd i'r arfer, i ddiolch i'r deisebydd – gan ddymuno'n dda iddo yn ei astudiaethau – a chau'r ddeiseb.

## **2.8 P-06-1196 Sefydlu System Wobrwyo Genedlaethol Er Anrhydedd; Gwobr Urdd Marchog Cymru**

Nododd y Pwyllgor raglen wobrwyo bresennol Gwobrau Dewi Sant a chytunodd i ddiolch i'r deisebydd a chau'r ddeiseb. Wrth gloi'r ddeiseb, cytunodd yr Aelodau hefyd i ysgrifennu at y Prif Weinidog er mwyn tynnu sylw at y ddeiseb a gofyn beth mae Gwobrau Dewi Sant yn ei wneud i gofio ffigyrau o hanes Cymru.

## **2.9 P-06-1198 Dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru achub y coed, y gwrychoedd a'r caeau yng Nghefn yr Hendy, Meisgyn**

Datganodd Joel James AS y buddiannau perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Bu'n ymwneud â'r cais penodol hwn o'r blaen.

Mae wedi cwrdd â'r rhai sy'n ymwneud â'r ymgyrch hon o'r blaen.

Nododd y Pwyllgor, o ystyried sefyllfa gontractiol Llywodraeth Cymru, na ellid gwneud fawr ddim i atal y gwerthiant, a bod adeiladu tai yn fater cynllunio i raddau helaeth. Roedd y Pwyllgor yn cydymdeimlo â'r deisebydd ynglŷn â'r mater hwn, gan ddod i'r casgliad nad oedd unrhyw lwybrau pellach y gallai'r Pwyllgor fynd ar eu trywydd mewn perthynas â'r mater, a chytunodd i gau'r ddeiseb.

Wrth gloi'r ddeiseb, roedd yr Aelodau am awgrymu y dylai'r deisebydd gysylltu â'i awdurdod lleol a'i gynrychiolwyr.

#### **2.10 P-06-1199 Dylid gosod Gwasanaethau Plant Caerdydd mewn mesurau arbennig, a chynnal adolygiad annibynnol ar frys**

Nododd y Pwyllgor rôl Arolygiaeth Gofal Cymru wrth asesu perfformiad awdurdodau lleol, a bod proses glir ar waith iddynt godi pryderon yn uniongyrchol gyda Llywodraeth Cymru. Felly, cytunodd yr Aelodau i nodi a chau'r ddeiseb.

#### **2.11 P-06-1203 Peidiwch â chyflwyno pasbortau brechlyn COVID-19 ar gyfer lleoliadau manwerthu a lletygarwch neu leoliadau eraill**

Nododd y Pwyllgor y byddai'r mater hwn yn cael ei drafod ac yn destun pleidlais yn y Cyfarfod Llawn ar 5 Hydref 2021. Felly, cytunodd yr Aelodau i aros am ganlyniad y Cyfarfod Llawn hwnnw, gan gytuno i gyflwyno'r ddeiseb yn ôl i'w thrafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor, yn dilyn y sesiwn honno yn y Cyfarfod Llawn.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd i hysbysu'r deisebydd am ganlyniad y bleidlais a gynhaliwyd yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 5 Hydref 2021.

## **2.12 P-06-1214 Dylid gwahardd defnyddio masgiau wyneb yn yr ystafell ddosbarth**

Yn dilyn cais y Cadeirydd i symud dyddiad cau'r ddeiseb hon ymlaen er mwyn ei hystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 5 Hydref, ac oherwydd bod y camau gweithredu y gofynnwyd amdanynt yn y ddeiseb eisoes wedi'u rhoi ar waith, cytunodd yr Aelodau i gau'r ddeiseb.

## **2.13 P-06-1215 Ailddechreuwch parkruns Cymru yr un pryd â rhai Lloegr**

Yn dilyn cais y Cadeirydd i symud dyddiad cau'r ddeiseb hon ymlaen, yn barod ar gyfer ei hystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 5 Hydref, ac oherwydd bod y camau gweithredu y gofynnwyd amdanynt yn y ddeiseb eisoes wedi'u rhoi ar waith, cytunodd yr Aelodau i gau'r ddeiseb.

## **2.14 P-06-1216 Lleihau'r costau ar gyfer prawf PCR yng Nghymru i'r rhai sy'n**

**dychwelyd o wyliau tramor a rhoi terfyn ar hunanynysu i'r rhai sydd wedi cael y brechlyn**

Yn dilyn cais y Cadeirydd i symud dyddiad cau'r ddeiseb hon ymlaen, yn barod ar gyfer ei hystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 5 Hydref, ac oherwydd bod y camau gweithredu y gofynnwyd amdanynt yn y ddeiseb eisoes wedi'u rhoi ar waith, cytunodd yr Aelodau i gau'r ddeiseb.

## **3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol**

### **3.1 P-05-1046 Ailystyried y cyfnod clo ac ymchwilio i dystiolaeth wyddonol**

Nododd y Pwyllgor fod yr amgylchiadau wedi newid o ganlyniad i'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r boblogaeth oedolion wedi cael eu brechu a bod y rhan fwyaf o'r cyfyngiadau wedi'u codi yng Nghymru, gan gytuno i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd.

### **3.2 P-05-1056 Rhowch rymoedd i Awdurdodau Lleol reoli'r farchnad dai yn ardaloedd gwledig a thwristaidd Cymru**

Datganodd Luke Fletcher AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n adnabod y deisebydd.

Roedd y Pwyllgor yn cydymdeimlo â'r materion a godwyd yn y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai er mwyn gofyn iddo ystyried y mater hwn fel rhan o'i raglen waith. Cytunodd yr Aelodau i gau'r ddeiseb.

### **3.3 P-05-1129 Mae angen cymhwyso mesurau deddfwriaethol nawr i weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith i ddiddymu Lesddaliad**

Cytunodd y Pwyllgor, o ganlyniad i'r dull a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru ar y mater hwn, nad oedd llawer o gamau pellach y gallai'r Pwyllgor eu cymryd, gan nodi y byddai'n debygol y bydd rhai amgylchiadau bob amser yn bodoli lle byddai angen i lesddeiliaid fod ar waith. Cytunodd yr Aelodau i ddiolch i'r deisebydd a chau'r ddeiseb.

### **3.4 P-05-1094 Rhoi terfyn ar ddirywiad treftadaeth Pontypridd – achubwch y Bont Wen**

Datganodd Joel James AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A: Mae'n adnabod y deisebydd.

Datganodd Buffy Williams AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n adnabod y deisebydd.

Cytunodd y Pwyllgor i groesawu'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd i ddiogelu'r bont Wen gan Gyngor Rhondda Cynon Taf mewn partneriaeth â CADW a nodi bod y ddeiseb wedi cyflawni'r hyn yr oedd yn bwriadu ei wneud. Cytunodd yr Aelodau i longyfarch y deisebydd ar lwyddiant y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb.

### **3.5 P-05-1142 Cynllun Mynd Allan i Helpu Allan**

Nododd y Pwyllgor fod gwaith wedi'i wneud ac yn cael ei wneud gyda sefydliadau chwaraeon a chyrrff cyhoeddus i gefnogi ac annog ymarfer corff yn dilyn y pandemig, a chytunodd i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd am godi'r mater hwn.

### **3.6 P-05-1010 Ymchwiliad annibynnol i'r Llifogydd yn Rhondda Cynon Taf yn 2020 fel bod gwersi yn cael eu dysgu**

Datganodd Buffy Williams AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae hi'n byw ym Mhentre, un o'r ardaloedd yr effeithiwyd arni gan y Llifogydd yn 2020.

Datganodd Luke Fletcher AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n adnabod y deisebydd.

Datganodd Joel James AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n Gyngorydd ar Gyngor Rhondda Cynon Taf.

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu'n ôl at y Gweinidog Newid hinsawdd, gan ofyn i'r llywodraeth ddwyn ynghyd drosolwg o ganfyddiadau pob un o'r gwahanol adroddiadau adran 19 ac adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n ystyried y gost ddynol ochr yn ochr â'r manylion technegol.

Cytunodd yr Aelodau hefyd i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, yn gofyn iddo ystyried y materion a'r dystiolaeth a godwyd gan y deisebydd fel rhan o'i waith yn y dyfodol.

### **3.7 P-05-1097 Dylid gwahardd cewyll adar hela**

Datganodd Joel James AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n aelod o Gymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain (BASC).

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru, a'r Trefnydd i ofyn am ymateb i'r meysydd a amlygwyd gan y deisebydd, gan ofyn sut y gallant ddylanwadu a rhyngweithio â'i gilydd, yn ogystal â'r alwad gan y deisebydd, ynghyd ag amserlen glir ar gyfer cwblhau'r broses.

### **3.8 P-06-1159 Gwahardd cynhyrchu, gwerthu a defnyddio maglau anifeiliaid unwaith ac am byth yng Nghymru**

Datganodd Joel James AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n aelod o Gymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain (BASC).

Datganodd Luke Fletcher AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae eisoes wedi llofnodi deiseb mewn perthynas â'r mater hwn.

Nododd a chroesawodd y Pwyllgor y ffaith bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo i wahardd defnyddio maglau yng Nghymru, felly cytunodd yr Aelodau i longyfarch y deisebydd a chau'r ddeiseb.

### **3.9 P-06-1161 Casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn**

Cytunodd y Pwyllgor i ofyn am bapur cwmpasu gan y gwasanaeth ymchwil ynglŷn â'r mater hwn, cyn penderfynu pa gamau y gellid eu cymryd mewn perthynas â'r ddeiseb hon.



### **3.10 P-06-1164 Gwneud bwlio ac aflonyddu mewn ysgolion yn drosedd pan fydd plant wedi cyrraedd yr oedran cyfrifoldeb troseddol**

Nododd y Pwyllgor fod deddfwriaeth eisoes yn bodoli ar gyfer sefyllfaoedd pan fo bwlio neu aflonyddu yn drosedd, ac nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu deddfu ymhellach ar y mater hwn. Felly, cytunodd yr Aelodau i gau'r ddeiseb, a diolch i'r deisebydd am godi'r mater.

Wrth gau'r ddeiseb, roedd yr Aelodau am wneud y datganiad nad yw bwlio ac aflonyddu yn dderbyniol yng Nghymru.

### **3.11 P-06-1167 Cefnogwch fusnesau teithio a thwristiaeth Cymru**

Cytunodd y Pwyllgor y dylai Aelodau unigol y Senedd fynd i'r afael â'r mater hwn yn awr, ac nad oedd llawer pellach y gallai'r Pwyllgor ei wneud ynglŷn â'r mater. Cytunodd y Pwyllgor i ddiolch i'r deisebydd am godi'r mater a chau'r ddeiseb.

## **4 Papur i'w nodi**

Nododd y Pwyllgor y llythyr.

## **5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 6.**

Derbyniwyd y cynnig.

## **6 Sesiwn Cynllunio Strategol / Cyflwyniad data deisebau**

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gyflwynwyd a chytunodd i ddychwelyd at y mater, gan ofyn i gael papur ynghylch y mater hwn sy'n edrych yn fanylach ar oblygiadau newid y trothwy llofnodion erbyn y cyfarfod nesaf.